



NASUWT yn condemnio'r cynnydd mewn pensiynau athrawon yn 2017 fel cynnydd annigonol

Mae NASUWT wedi ysgrifennu at y Llywodraeth yn condemnio ei gynnydd islaw chwyddiant i pensiynau athrawon gan ddweud ei fod yn annigonol. Mae llythyr yr Undeb at y Prif Ysgrifennydd i'r Trysorlys ar gael (yn y Saesneg yn unig) ar: www.nasuwt.org.uk/article-listing/nasuwt-condemns-2017-increase-to-teachers-pensions.html.

Mae'r Llywodraeth wedi cyhoeddi y bydd yn cynyddu'r pensiynau a delir i athrawon o un y cant o 10 Ebrill 2017 ymlaen. Fodd bynnag, mae hyn yn llai na'r gyfradd chwyddiant bresennol, sy'n 2.6 y cant ar hyn o bryd ac mae llawer o economegwyr yn rhagweld y bydd yn cynyddu i 4 y cant erbyn diwedd 2017. I wneud pethau'n waeth, ni chynyddodd pensiynau athrawon o gwbl y llynedd, a'r cynnydd yma islaw chwyddiant yw'r cyntaf ers y flwyddyn 2015.

Felly mae NASUWT wedi galw ar y Trysorlys i ailystyried y gyfradd annerbyniol o isel o gynnydd mewn pensiynau athrawon yn 2017, ac mae wedi tynnu sylw at y caledi y bydd nifer o bensiynwyr yn ei ddiodeff o ganlyniad i hynny. Protestiodd NASUWT hefyd yn 2016 yn erbyn gorfodaeth y Llywodraeth i rewi pensiynau athrawon.

Mewn oes o gynnydd mewn chwyddiant, mae hyn yn golygu bod cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gwasanaeth cyhoeddus yn sylweddol is na chyfradd y cynnydd mewn prisiau i'r mwyafrif o bensiynwyr. Mae'r Llywodraeth yn dal i ddefnyddio'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) is i fesur chwyddiant, yn hytrach na'r Mynegai Prisiau Manwerthu (RPI) a ddefnyddiwyd hyd at 2011.

Mae NASUWT yn dal i fod mewn anghydfod gyda'r Llywodraeth am y newid yn y mynegrifo o'r RPI i'r CPI a ddigwyddodd yn 2011 a hwn hefyd yw'r unig undeb athrawon a heriodd yn y Llys Apêl newidiad y Llywodraeth o fynegeoio yn ôl RPI i fynegeoio yn ôl CPI wrth bennu cyfradd y cynnydd mewn pensiynau gwasanaeth cyhoeddus.

Cynnydd ym mandiau cyfraniadau pensiwn y gweithwyr

Mae'r Adran Addysg (DfE) wedi cyhoeddi y bydd cynnydd o 1 y cant ym mandiau cyfraniadau pensiwn y gweithwyr o 1 Ebrill 2017 ymlaen. Bydd hyn yn cynyddu'r lefel uwch ac is yn y gwahanol haenau sy'n pennu lefel y cynnydd mewn cyfraniadau pensiwn i athrawon.

Yn ystod y trafodaethau am strwythur cyfraniadau pensiwn y gweithwyr yn 2014/15, sicrhodd NASUWT strwythur cyfraniadau blaengar, fel bod athrawon sy'n ennill y cyflog isaf yn talu'r symiau isaf, ac hefyd bod cyfraniadau wedi eu seilio ar gyflogau gwirioneddol yn hytrach na chyflogau cyfwerth ag amser llawn. Roedd hyn yn sicrhau bod y strwythur cyfraniadau pensiwn yn trin athrawon rhan amser yn deg.

Nid yw'r cynnydd yn y lefel uwch ac is o'r bandiau cyfraniadau pensiwn yn golygu y bydd cynnydd yn y cyfraniadau pensiwn – yn wir, mae nifer gynyddol o athrawon yn debygol o berthyn i'r bandiau sydd â chyfradd cyfraniadau is oherwydd y cynnydd. Mae'r cynnydd yn y bandiau'n angenrheidiol i sicrhau, pan fydd athrawon yn derbyn cynnydd yn eu cyflogau, na fydd hynny'n tueddu i gael ei ganslo allan gan gyfraniadau pensiwn uwch.

Parhad drosodd

Dyma fandiau cyfraniadau pensiwn y gweithwyr o 1 Ebrill 2017 ymlaen:

Y Gyfradd Cyflog Blynyddol ar gyfer y Gyflogaeth sy'n Gymwys o 1 Ebrill 2015 hyd 31 Mawrth 2017	Y Gyfradd Cyflog Blynyddol ar gyfer y Gyflogaeth sy'n Gymwys o 1 Ebrill 2017 ymlaen	Cyfradd Cyfraniad yr Aelod
Hyd at £25,999.99	Hyd at £26,259.99	7.4%
Rhwng £26,000 a £34,999.99	Rhwng £26,260 a £35,349.99	8.6%
Rhwng £35,000 a £41,499.99	Rhwng £35,350 a £41,914.99	9.6%
Rhwng £41,500 a £54,999.99	Rhwng £41,915 a £55,549.99	10.2%
Rhwng £55,000 a £74,999.99	Rhwng £55,550 a £75,749.99	11.3%
£75,000 ac yn uwch	£75,750 ac yn uwch	11.7%

Bydd NASUWT yn parhau i gymryd camau effeithiol i sicrhau hawliadau pensiwn yr aelodau. Mae anghydfod diwydiannol NASUWT am bensiynau'n parhau.